Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol ar Gynllun y

# Trydydd Sector 2014-15










Mawrth 2016

Mae'r holl luniau a ddefnyddir gyda chaniatâd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG28006
ISBN digidol 978 1 4734 5929 8 ISBN argraffu 978 1 4734 5930 4

**ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYNLLUN Y SECTOR GWIRFODDOL 2014-15**

**CYNNWYS**

Rhydd yr adroddiad hwn drosolwg o gydberthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector yn **2014-15**.


1. Rhagair gan Lesley Griffiths AC, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

2. Safbwynt y Sector: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

   **Astudiaeth Achos: Chwarae Cynaliadwy gan fudiad creadigol RAY Ceredigion**

3. Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Trydydd Sector – Perthnasoedd, Ymgysylltu a Chynllun y Trydydd Sector

   **Astudiaeth Achos: Tafarn Gymunedol – Iorwerth Arms Bryngwran, Ynys Môn**

4. Sut a Pham mae Llywodraeth Cymru yn Cefnogi Gwirfoddolwyr

   **Astudiaeth Achos: Gwirfoddolwyr yn gwella lles cleifion mewn ysbytai**

   **Astudiaeth Achos: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd**

5. Cefnogi'r Trydydd Sector – Rôl sefydliadau Seilwaith a galluogi'r Trydydd Sector i ffynnu a chyflawni

   **Astudiaeth Achos: Gwirfoddolwyr y Mileniwm/GwirVol**

   **Astudiaeth Achos: Cyswllt Amgylchedd Cymru – Cronfa Natur**

6. Cyllid a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i fudiadau'r Trydydd Sector 2014-15

7. Ffynonellau gwybodaeth bellach

## RHAGAIR

Hwn yw fy ail Adroddiad Blynyddol fel Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol yng Nghymru, mudiadau rydym yn eu cydnabod gyda'i gilydd fel "Trydydd Sector" penodol. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

Rhoddwyd sylw eleni i barhau â'n hymrwymiad i ymgysylltu â'r Trydydd Sector a pharatoi ar gyfer newid. Gan weithio gyda'r sector, fe wnaeth Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn y Trydydd Sector ddatblygu a chyhoeddi Cynllun newydd ar gyfer y Trydydd Sector sydd bellach yn cynnwys y Cod Ymarfer diwygiedig a chryfach ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

Fy ngweledigaeth o hyd yw gweld y Trydydd Sector fel partner allweddol sy'n cefnogi datblygiad polisi Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau canlyniadau gweladwy er mwyn cefnogi cymunedau ac unigolion ledled Cymru.

Mae'n bwysig bod gennym dystiolaeth gref ar gyfer y canlyniadau hynny a gyda'n gilydd ein bod yn dangos beth mae'r Sector yn ei wneud er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn gyfraniad pwysig tuag at rannu'r hyn a gyflawnwyd.

Yn 2014-15 fe wnaethom barhau i weithio gyda'n gilydd er mwyn:

- Canfod gwell mecanweithiau ymgysylltu adeiladol rhwng y Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru;
- Cydnabod pwysigrwydd gwirfoddolwyr ac adnewyddu ein polisïau er mwyn cefnogi ac annog gwirfoddoli;
- Pwyso a mesur y trefniadau ariannu sy'n cefnogi'r hyn rydym yn cyfeirio ato fel Seilwaith y Trydydd Sector yng Nghymru, yn arbennig yn yr oes heriol sydd ohoni o safbwynt economaidd.

Gan gydnabod gwerth y Sector, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i'w gefnogi wrth iddo fynd yn ei flaen ond yn cydnabod ar yr un pryd y bu'n rhaid gwneud dewisiadau ariannol anodd iawn oherwydd y gostyngiad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Trydydd Sector ac yn ei gefnogi er mwyn darparu ar gyfer cymunedau lleol. Mae hefyd yn edrych ar gyfraniad y Trydydd Sector ac ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd. Rwy'n ddiolchgar i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am ei gyfraniad sylweddol tuag at yr adroddiad, gan gynnwys enghreifftiau o'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan y Trydydd Sector â chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru wedi cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol mewn ardaloedd lleol. Maent

hefyd yn dangos sut mae gwaith gwirfoddol wedi bod o fudd mawr i unigolion a chymunedau.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio mewn cysylltiad agos â'r Sector, gan sicrhau bod ein perthynas ar drywydd cadarn a chadarnhaol ar gyfer y dyfodol, ac at barhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyfoethogi bywydau pobl yn ein cymunedau ledled Cymru.



**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

**Safbwynt y Sector: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)**

Mae Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer y Trydydd Sector yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i weithio mewn partneriaeth â'r sefydliadau amrywiol sy'n rhan o'r Sector gwirfoddol, cymunedol ac elusennol yng Nghymru.

Mae cyngor gan y Llywodraeth yn bwysig iawn er mwyn cynorthwyo ymddiriedolwyr i reoli yn y ffordd fwyaf effeithiol ac er mwyn darparu sicrwydd ansawdd a hyder i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac i'r cyrff ariannu.

Mae ymdrechion i arloesi o ran y ffordd y mae'r Sector yn gweithio ac, yn fwyaf penodol, sut rydym yn darparu adnoddau ar gyfer ein gweithgareddau, wedi elwa o bartneriaethau creadigol gyda'r sector cyhoeddus ehangach, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd. Bydd hyn yn dod yn fwy a mwy pwysig pan fydd diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn datblygu momentwm a'r angen am fodelau cyflawni gwahanol yn dod yn fwy amlwg.

Mae'r ffaith fod Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn rhoi pwyslais ar les a chenedlaethau'r dyfodol yn helpu i gryfhau ein hymrwymiad cyffredin i gefnogi pobl sydd dan anfantais neu sy'n cael eu gwahaniaethu.

Mae tystiolaeth feintiol ac ansoddol o effaith gwaith y Trydydd Sector yn hollbwysig. Mae budd cymdeithasol o fuddsoddiad, manteision cymunedol a storïau a phrofiadau'r bobl eu hunain yn dangos pa mor werthfawr yw cyfraniad y Trydydd Sector. Drwy fanteisio ar ein cryfderau unigol a datblygu mentrau ar y cyd gallwn sicrhau bod cyngor ac arweiniad cyson ar gael yn rhwydd i fudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr unigol ledled Cymru. Mae cynnal gwasanaethau a chyllid bob amser yn peri pryder, a'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud y defnydd gorau o'r ychydig arian cyhoeddus prin yw trwy gydweithio, cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

Mae annog pobl i wirfoddoli, cydnabod eu gwaith a dangos gwerthfawrogiad, yn hollbwysig – yn enwedig y dyddiau hyn pan mae cymaint o newidiadau'n digwydd ym maes cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a throsglwyddo asedau.

Yn ystod 2014-15 cyflenwodd y Trydydd Sector lawer o wasanaethau a phrosiectau a wnaeth wahaniaeth go iawn i unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cyflwyno rhai o'r uchafbwyntiau sy'n nodweddiadol o amrywiaeth y Sector a'r gefnogaeth y gwyddom amdani'n barod. Mae Trydydd Sector annibynnol, cryf a bywiog yn dal yn rhan hanfodol o gymdeithas iach a llewyrchus.





Peter Davies OBE
Cadeirydd

Ruth Marks MBE
Prif Weithredwr

**Astudiaeth Achos: Chwarae cynaliadwy gan fudiad creadigol RAY Ceredigion**

Mae Amgylchedd Cymru yn cynorthwyo mudiadau ledled Cymru i wneud gwaith gwirfoddol sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Un grŵp o'r fath yw RAY Ceredigion. Drwy ei brosiect Ailgylchu a Stôr Sgrap mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn rhoi gwerth i eitemau diwerth.

Sefydlwyd RAY Ceredigion yn 2001 fel rhwydwaith y tu allan i'r ysgol i gefnogi gofal plant cofrestredig y tu allan i'r ysgol.

Er 2005 mae'r sefydliad wedi ehangu ei gylch gwaith i gefnogi cyfleusterau chwarae mynediad agored, hyfforddiant ac addysg i blant a'r rhai sy'n eu cefnogi fel staff neu wirfoddolwyr. Fel rhan o'r broses ehangu hon bu grŵp bach yn Aberystwyth a oedd yn cael ei arwain gan wirfoddolwyr yn casglu eitemau diwerth nad oedd neb eu heisiau, ac yn eu rhoi i weithwyr chwarae RAY i'w defnyddio mewn sesiynau celf a chrefft gydag ysgolion, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau ieuenctid.

Gallent weld bod potensial i ddatblygu'r agwedd hon ar eu menter: drwy chwarae creadigol, meithrin canolfan greadigol lle gallai pobl ifanc gynllunio eitemau arbennig, ac ystyried materion yn ymwneud â chynaliadwyedd hefyd. Mae ailddefnyddio pethau nad oedd pobl eu heisiau wedi helpu'r grŵp i sicrhau bod llai o ddeunyddiau newydd sbon yn cael eu defnyddio mewn gweithgareddau crefft a throi eitemau diwerth yn gynnyrch â gwerth cynhenid.



Â chymorth datblygu a grant gan Amgylchedd Cymru mae RAY Ceredigion wedi gallu datblygu'r Stôr Sgrap drwy gyflogi Rheolwr Stôr Sgrap a Chydgysylltydd Gwirfoddolwyr (rhannu swydd). Mae hyn wedi galluogi'r grŵp i gynnig llawer o weithgareddau rhad ac am ddim, gan gynnwys 'Hwyl i'r Teulu ar Ddydd Sadwrn' lle mae cyfle i wneud eitemau allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, e.e. defnyddio bagiau plastig i wneud barcud, defnyddio poteli plastig i wneud blodau a defnyddio hen recordiau i wneud clociau.

Mae grŵp newydd, Clonc a Chrefft, yn cyfarfod bob bore dydd Mercher i wneud gwaith celf â deunyddiau wedi'u hailgylchu; mae'r aelodau'n gwneud powlenni a rygiau hardd. Cafodd y grŵp grant hyfforddi gan Amgylchedd Cymru, ac mae'r grant wedi helpu staff a gwirfoddolwyr i ddarganfod technegau crefft newydd, a'u galluogi i ehangu eu sgiliau, datblygu syniadau a chreu nwyddau ar gyfer gweithdai crefft.

Un wirfoddolwraig o'r fath yw Louise James, rhiant sengl sy'n byw yn Aberaeron, a ddechreuodd ddod i'r sesiynau mam a'i phlentyn gyda'i merch. Gwelodd sut roedd y prosiect yn datblygu sgiliau cymdeithasol a datblygiad ei phlentyn drwy chwarae â chrefftau ac roedd yn awyddus i gefnogi'r prosiect. Ar ôl i'w merch ddechrau mynd i'r ysgol gwelodd gyfle i wirfoddoli gyda'r prosiect a dydy hi ddim wedi edrych yn ôl. Mae gwirfoddoli wedi galluogi Louise i ddefnyddio ei sgiliau creadigol i ddysgu eraill sut i ddefnyddio'u dwylo i greu eitemau gwerthfawr ac ymwneud mwy â'r gymuned. Pan ofynnwyd i Louise beth mae gwirfoddoli gyda RAY Ceredigion yn ei olygu iddi hi, dywedodd:

'Rwyf wrth fy modd! Rwy'n mwynhau celf a chrefft ac yn hoff o wneud pethau gyda'r peiriant gwnïo ac unrhyw beth creadigol. Roedd gwirfoddoli'n golygu fy mod yn gallu defnyddio fy nychymyg creadigol, a dysgu oedolion eraill a phlant. Rwy'n hoff iawn o gymdeithasu a chwrdd â phobl ac mae yna lawer o gyfleoedd cymdeithasu yma yn RAY. Mae'n gymaint o gymorth i mi, rwy'n mynd allan ac yn cymryd rhan yn y gymuned.'

Mae RAY Ceredigion wedi'i leoli yn Aberaeron ac mae bob amser yn falch o glywed gan ddarpar wirfoddolwyr sy'n awyddus i fod yn rhan o'r Stôr Sgrap. I gael rhagor o wybodaeth ewch i http://www.rayceredigion.org.uk/Welsh%20pages/volunteering.html

## 3. SUT MAE LLYWODRAETH CYMRU YN GWEITHIO GYDA'R TRYDYDD SECTOR – PERTHNASOEDD, YMGYSYLLTU A CHYNLLUN Y TRYDYDD SECTOR

### Beth yw'r Trydydd Sector?

Gofynnir y cwestiwn hwn inni'n aml. Y gwir amdani yw oherwydd natur amrywiol y sector mae'n eithaf anodd ei ddiffinio'n bendant. Mae'r Trydydd Sector yn rhychwantu bron bob agwedd ar ddiddordeb dynol. Mae'n cynnwys mudiadau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, mentrau cydweithredol a mudiadau cydfuddiannol i enwi ond ychydig.

Maent i'w cael ar amrywiol ffurfiau sefydliadol, gan gynnwys elusennau cofrestredig ac anghofrestredig, cwmnïau cyfyngedig drwy warant (y gallent hefyd fod yn elusennau cofrestredig), Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a chymdeithasau anghorfforedig. Mae gan bob sefydliad ei nodau ei hun, ei ddiwylliant unigryw, set o werthoedd a'i ffordd o wneud pethau, ond maent i gyd yn rhannu rhai nodweddion pwysig:

- maent yn gyrff anllywodraethol, annibynnol, wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis trefnu;
- maent yn cael eu sbarduno gan 'werthoedd' a'u cymell gan yr awydd i hybu amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na dim ond gwneud elw; ac
- maent wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi unrhyw arian dros ben i hybu eu hamcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol.

Rydym yn credu bod dadl gref dros ystyried cyrff sydd â'r nodweddion hyn fel sector penodol - un sy'n gwneud cyfraniad aruthrol i les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a hyrwyddo'r Trydydd Sector. Rydym yn gwerthfawrogi'r Trydydd Sector am y cyfraniad a wna'r Sector i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor Cymru, a'i phobl a'i chymunedau.

Rydym yn cydnabod mudiadau Trydydd Sector fel cyrff annibynnol sy'n pennu eu blaenoriaethau eu hunain ac sy'n rheoli eu materion eu hunain. Mae gan y Trydydd Sector ddyletswydd i gynrychioli buddiannau'r bobl sy'n rhan ohono. Mae mudiadau'r Trydydd Sector yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion y maent wedi'u sefydlu arnynt. Maent yn atebol i'w haelodau a'r unigolion a'r cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw, ac i gyrff rheoleiddio megis y Comisiwn Elusennau dros Gymru a Lloegr.

Mae ein perthynas yn dibynnu ar onestrwydd, ymddiriedaeth a pharch at ein gilydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i aeddfedu'r berthynas hollbwysig hon sydd wedi datblygu dros gyfnod hir, er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

Rydym yn gweithio gyda'r Sector (ac eraill) er mwyn datblygu canllawiau newydd cadarn ar y Compactau Lleol (trefniadau ar gyfer gweithio ar y cyd) rhwng Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector, y disgwyliwn y byddant yn cael eu cefnogi gan well trefniadau monitro.

Mae Gweinidogion Cymru wedi addo y byddant yn dal i gyfarfod cynrychiolwyr y Trydydd Sector i drafod pryderon neu bynciau penodol sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Bydd y cyfarfodydd hyn yn ystyried gwaith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, y gallwch ddarllen rhagor amdano yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Yn 2014/15 rydym wedi gweithio er mwyn datblygu Fframwaith Ymgysylltu newydd er mwyn sicrhau bod holl elfennau'r berthynas yn gweithio fel y bwriadwyd iddynt wneud.

**Cynllun y Trydydd Sector**

Mae Cynllun y Trydydd Sector, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2014, yn cynnwys fframwaith sy'n dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Trydydd Sector. Mae'n ymdrin â threfniadau ymgynghori, gweithio mewn partneriaeth â'r Sector ac ariannu.

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector (a drafodir ymhellach ym Mhennod 5 o'r adroddiad hwn) wedi cael ei ddiweddaru a'i gynnwys fel atodiad i Gynllun y Trydydd Sector. Mae'n nodi'r prosesau ar gyfer dyrannu cyllid i'r Trydydd Sector yng Nghymru a'r ymrwymiad y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddisgwyl gan y Sector yn gyfnewid am y cyllid.

http://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/comm/140130-third-sector-scheme-cy.pdf

**Beth sydd yn y Cynllun?**

Nod Cynllun y Trydydd Sector yw sicrhau partneriaeth er mwyn ein helpu i ddatblygu a chefnogi prosesau a fydd yn y pen draw yn arwain at:

- **Gymunedau cadarnach** – y ffordd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud cyfraniad gwirfoddol i fywiogrwydd ac adfywiad eu cymunedau, yn darparu gofal ac yn helpu i feithrin hyder a sgiliau pobl; a'r cyfleoedd y mae'r Trydydd Sector yn eu creu ar gyfer cyflogaeth a menter leol;

- **Polisi gwell** – yr wybodaeth a'r arbenigedd y mae'r Trydydd Sector yn eu cynnig drwy ei brofiad rheng flaen i helpu i lunio polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau;

- **Gwasanaethau cyhoeddus gwell** – y rôl arloesol a thrawsnewidiol y gall y Trydydd Sector ei chwarae er mwyn sicrhau bod gwasanaethau

cyhoeddus yn cyrraedd mwy o bobl ac yn dod yn fwy sensitif i'w hanghenion.

Mae Cynllun y Trydydd Sector yn nodi sut mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru (a'i hasiantaethau cyflenwi) a'r Trydydd Sector yn gweithio o ran:

- Rhannu barn a gwybodaeth, drwy brosesau ymgynghori ac adnabod cynnar, ar effaith polisïau a'u gweithrediad yn y dyfodol ar y Trydydd Sector a'r cyfraniad y gall y Trydydd Sector ei wneud;

- Cynllunio, dylunio, monitro a gwerthuso rhaglenni a chynlluniau ar y cyd pryd bynnag y mae gan y Trydydd Sector ran i'w chwarae;

- Cyllid ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol; a

- Diddordeb a rennir yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn rhyngweithio â'r Trydydd Sector.

Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi sylw i'r themâu trawsbynciol, sef Trechu Tlodi, Datblygu Cynaliadwy, Cydraddoldeb a'r Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn cynnal amryw o sianelau i gyfathrebu ac ymgysylltu â'i gilydd.

**Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector**

Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn cynnwys cynrychiolwyr o 25 o gategorïau a nodir yn y Trydydd Sector a thri chynrychiolydd o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'n fforwm gwerthfawr i drafod materion strategol a thrawsbynciol. Mae cofnod o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth ar gael ar-lein yn http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/partnership/?skip=1&lang=cy

Yn ystod 2014/15, trafododd y Cyngor Partneriaeth eitemau amrywiol a oedd o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn canolbwyntiai'r trafodaethau ar ymateb y Trydydd Sector i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Parhad a Newid – Adnewyddu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sect*or; datblygu Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru, *Cefnogi Cymunedau – Newid Bywydau*, ac Adroddiad Grantiau Blynyddol Llywodraeth Cymru.

Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod.

http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/partnership/thirsdector-mtg-papers/?skip=1&lang=cy

Mae rhai meysydd diddordeb wedi cael sylw gan is-bwyllgorau pynciau penodol y Cyngor Partneriaeth a elwir yn “Ffrydiau Gwaith”.

**Cyfarfodydd Gweinidogol gyda’r Trydydd Sector**

Mae’r cylch o gyfarfodydd rhwng pob un o Weinidogion Cymru a chynrychiolwyr rhwydweithiau Trydydd Sector sy’n berthnasol i’w portffolios wedi parhau i fod yn sail i ddeialog. Roedd y pynciau a drafodwyd yn 2014-15 yn cynnwys y canlynol:

- Digwyddiadau coffa i nodi can mlynedd ers dechrau’r Rhyfel Byd Cyntaf – Cymru’n Cofio – Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
- Trechu Tlodi a Chyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 15/16 – Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
- Lleihau Anghydraddoldeb ym maes Iechyd – Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – i Blant ac Oedolion – Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cau’r Bwlch Gweithredu o ran Hyrwyddo Perthnasoedd Iach drwy Agwedd Ysgol Gyfan – Y Gweinidog Addysg a Sgiliau a’r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
- Pŵer Dŵr Cymunedol – Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
- Bwydo Prydain – Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn i’w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/ministers/?skip=1&lang=cy

**Astudiaeth Achos: Tafarn Gymunedol – Iorwerth Arms Bryngwran, Ynys Môn**




Mae tafarn Iorwerth Arms ym Mryngwran ar Ynys Môn bellach yn eiddo i'r gymuned. Ar ôl misoedd o waith caled, llwyddodd busnes cymdeithasol newydd, Bryngwran Cymunedol Cyf, i gael cyllid i brynu'r busnes gan gwmni Punch Taverns, ac mae bellach yn cael ei redeg gan y gymuned leol, ac ar ei rhan, fel menter ddielw.

Yn ôl Nev Evans, aelod o'r tîm fu'n gweithio'n galed er mwyn prynu'r dafarn, "Mae'n newyddion gwych ac yn rhyddhad mawr ein bod wedi gallu cadw ased cymunedol go iawn yng nghanol y pentref. Hoffwn ddiolch i Punch Taverns am fod yn amyneddgar iawn wrth drafod pethau gyda ni a helpu i hwyluso'r broses. Mae'r gefnogaeth gan WCVA hefyd wedi bod yn allweddol er mwyn ein galluogi i gyrraedd cyn belled â hyn."

Ychwanegodd, "Mae'r ymateb lleol wedi bod yn wych, o'r adeg pan wnaethon ni gymryd y dafarn drosodd ar brydles. Rydyn ni eisoes wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau cymunedol, sydd wedi cael cefnogaeth dda, a gan fod y dafarn bellach yn eiddo i ni mae gennym ni gynlluniau i wneud mwy fyth o bethau. Mae gan y lle botensial mawr i ychwanegu rhywbeth at fywyd y pentref."

Cafwyd cyllid i brynu'r dafarn drwy fenthyciadau buddsoddiad cymdeithasol gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Chyllid Cymru. Yn ôl Matt Brown o WCVA, "Roedd hi'n amlwg o'r dechrau bod hwn yn brosiect roedd yn rhaid i ni ei gefnogi, oherwydd cryfder y tîm oedd y tu ôl iddo a'i bwysigrwydd i'r pentref. Nid hon yw'r dafarn gymunedol gyntaf i ni ei chefnogi, ac os bydd Iorwerth Arms yn cael cymaint o lwyddiant â thafarn Glan Llyn yng Nghlawddnewydd (buddsoddiad cymdeithasol arall gan WCVA) dw i'n siŵr y bydd pawb yn hapus iawn. Iechyd da Bryngwran!"

## 4. SUT A PHAM MAE LLYWODRAETH CYMRU YN CEFNOGI GWIRFODDOLWYR

Does gan Lywodraeth Cymru ddim amheuaeth – mae amser i wirfoddoli ac arbenigedd i gefnogi eraill, yn ddi-dâl i'r unigolyn neu'r gymuned neu'r grŵp, a heb fudd ariannol i'r gwirfoddolwr, yn beth da i unrhyw un fod eisiau ei wneud. Mae'n un o nodweddion hanfodol dinasyddiaeth dda yng Nghymru ac rydym yn awyddus i wneud popeth posibl er mwyn ei annog.

Mae gwirfoddolwyr yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i bobl a chymunedau ledled Cymru. Maent yn dod â budd i bron bob agwedd ar fywyd bob dydd ac yn gwella'r ffordd y mae llawer o wasanaethau cyhoeddus a mentrau'r Llywodraeth yn cael eu darparu.

Mae gwirfoddoli yn ymwneud yn y pen draw â helpu eraill a chael effaith ar les pobl, ond y gwir amdani yw bod y gwirfoddolwyr yn aml yn cael cymaint o fudd o'r profiad â'r unigolion a'r cymunedau y maent yn eu helpu – ond nad ydynt yn cael tâl am wneud y gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o'r traddodiad cryf sydd yng Nghymru o gefnogi pobl eraill yn ein cymunedau a allai, am ba bynnag reswm, fod yn llai ffodus neu mewn angen.

Mae Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer 2014 yn dangos bod tua 931,000 o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgarwch gwirfoddol ledled Cymru. Gyda phoblogaeth o ychydig dros 3 miliwn, mae'n amlwg bod ein traddodiad cadarn o gefnogi pobl eraill yn parhau, hyd yn oed mewn blwyddyn sydd wedi bod yn un anodd iawn i bawb.

Gwirfoddolwyr di-dâl yn aml yw'r glud sy'n dal cymuned wrth ei gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwerth a'r effaith a gaiff gwirfoddoli ar fywydau pobl ar draws ein cymunedau ac mae wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i sicrhau bod llwybrau cefnogaeth ar gael i'r rheini sydd am wneud yr hyn a allant i eraill.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r manteision gwirioneddol i unigolion sy'n gwirfoddoli:

- **Mae gwirfoddoli yn eich helpu i wneud ffrindiau a chysylltiadau newydd**

Un o'r ffyrdd gorau o wneud ffrindiau newydd a chryfhau eich perthnasoedd presennol yw ymrwymo i weithgaredd sy'n cael ei wneud gyda phobl eraill.

- **Gall gwirfoddoli roi ymdeimlad o bwrpas – rhywbeth i'w wneud, sydd o fudd i'r sawl sy'n gwirfoddoli ac i'r unigolyn/achos y mae'n ei helpu**

Gall bod â "dim byd i'w wneud" gael effaith negyddol iawn ar hunan-barch a hunan-dyb rhywun. Mae'n siwrnai anodd, a llawer o rwystrau i'w goresgyn, ond gall cyrraedd pen y daith a chael canlyniadau cadarnhaol fod yn fuddiol ynddo'i hun. Ym mhen arall y raddfa, does dim byd gwell na chael help llaw,

pan rydych eisiau cyflawni rhywbeth a chithau'n gwybod na allwch wneud hynny ar eich pen eich hun. Gall gwirfoddolwyr wneud bywyd yn well i bob un ohonom.

- **Gall gwirfoddoli roi profiad i chi ar gyfer eich gyrfa**

Cael swydd a'i chadw yw'r ffordd orau un o wella ansawdd bywyd unigolion. I'r rheini sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith, mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i roi cynnig ar yrfa newydd heb wneud ymrwymiad hirdymor. Mae hefyd yn cynnig cyfle i ennill profiad mewn maes newydd, a dysgu sgiliau newydd. Mae llawer o gyfleoedd gwirfoddoli yn rhoi hyfforddiant helaeth. Mae meddu ar fwy o brofiad a sgiliau dymunol yn gwella siawns pawb mewn marchnad swyddi gystadleuol.

- **Gall gwirfoddoli roi hwb i'ch gyrfa**

I rai sydd eisoes mewn gwaith, gall gwirfoddoli helpu i fagu profiad mewn maes diddordeb a chwrdd â phobl yn yr un maes. Mae gwirfoddoli'n rhoi cyfle i ymarfer sgiliau pwysig a ddefnyddir yn y gweithle, megis gweithio mewn tîm, cyfathrebu, datrys problemau, cynllunio prosiectau, rheoli tasgau a threfnu.

Wrth gwrs, mae llawer o fanteision eraill hefyd.

**Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwirfoddoli?**

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian "craidd" i leihau unrhyw gostau gweinyddol a gwella effeithlonrwydd er mwyn cefnogi'r hyn yr ydym yn ei ddisgrifio'n gyffredin fel y Seilwaith (esbonnir ymhellach ym Mhennod 5) ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru. Rydym wedi datblygu Cytundeb Partneriaeth, gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol, sy'n nodi beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'w phartneriaid yn y Trydydd Sector ei wneud am y cyllid "craidd" rydym yn ei gynnig.

Mae'n rhoi manylion am amcanion amrywiol a gynlluniwyd er mwyn sicrhau bod pobl neu sefydliadau sy'n dymuno manteisio ar gyngor, cefnogaeth ac arweiniad ledled Cymru yn cael gwasanaeth unffurf o safon uchel.

Mae Canolfan Wirfoddol ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae pob un ohonynt yn sefydliad Trydydd Sector ac yn y rhan fwyaf o achosion maent yn rhan o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol perthynol. (Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn roedd y Canolfannau Gwirfoddol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn gyrff annibynnol a oedd yn gweithio mewn cysylltiad agos â'u Cynghorau Gwirfoddol Sirol perthynol.) Mae pob un o'r Canolfannau Gwirfoddol yng Nghymru'n darparu gwasanaeth o'r un safon o fewn y fframwaith a ddarperir gan y Cytundeb Partneriaeth cyffredinol.

Rydym hefyd yn cefnogi dwy Raglen Wirfoddoli benodol – y naill a'r llall yn cael eu gweinyddu ar ein rhan gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a GwirVol.

Nod Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru yw:

- Cefnogi prosiectau gwirfoddoli ffurfiol sy'n ceisio recriwtio, cefnogi, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr NEWYDD;
- Annog ymarfer da wrth wirfoddoli;
- Helpu i ddatblygu gwirfoddoli mewn meysydd llai datblygedig, er enghraifft grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, meysydd sydd â llai o gyfleoedd neu fathau o gyfleoedd gwirfoddoli.

Mae grantiau o hyd at £25,000 ar gael drwy'r gronfa hon, a gellir eu defnyddio tuag at gostau cydgysylltydd gwirfoddolwyr, hyfforddiant a chostau teithio gwirfoddolwyr a rhai eitemau cyfalaf.

Mae GwirVol, a lansiwyd yn Ebrill 2009, yn bartneriaeth rhwng y Trydydd Sector, a'r sectorau preifat a chyhoeddus, ac yn cael ei harwain gan farn pobl ifanc.

Nodau craidd GwirVol yw:

- Cynyddu nifer ac amrywiaeth y bobl ifanc sy'n gwirfoddoli yng Nghymru;
- Cynyddu nifer ac argaeledd cyfleoedd gwirfoddoli o safon i bobl ifanc yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf o'u profiad o waith gwirfoddol.

Mae GwirVol yn ceisio cynorthwyo pobl ifanc i ymwneud â gwirfoddoli. Mae'n gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys y Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid sydd wedi'u lleoli yn y Canolfannau Gwirfoddol ledled Cymru. Mae'r Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid yno i gynnig cyngor a gwybodaeth ynglŷn â sut i ddod yn wirfoddolwr. Maent yno er mwyn i bobl ifanc gael siarad am yr hyn maen nhw eisiau ei wneud a beth maen nhw eisiau ei gael o'r profiad.

Mae llawer o wahanol gyfleoedd i wirfoddoli ar gael ac maent yn gweithio er mwyn rhoi'r bobl ifanc mewn cysylltiad â'r sefydliad iawn iddyn nhw. Mae cynghorwyr gwirfoddolwyr ifanc hefyd yn bartneriaid cyflawni lleol ar gyfer Dyfarniad Gwirfoddolwyr y Mileniwm Llywodraeth Cymru sy'n dathlu 50, 100 a 200 awr o wasanaeth gwirfoddol.

Mae dyraniadau Cronfa Seilwaith y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 i'w gweld isod:

**Gwariant Craidd Cymwys WCVA**

| | |
|---|---|
| **Uchafswm cyfraniad grant craidd (£) LlC** | **£911,478** |
| **Grantiau i Gynghorau Gwirfoddol Sirol** | **£2,694,853** |

**Dyraniadau**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol yn Wrecsam | £112,326 |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr | £112,410 |
| Cyngor Trydydd Sector Caerdydd | £151,807 |
| Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin | £135,450 |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion | £112,038 |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy | £113,913 |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych | £112,529 |
| Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | £114,468 |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent | £397,226 |
| (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd) Interlink (Rhondda Cynon Taf) | £153,654 |
| Mantell Gwynedd | £146,488 |
| Medrwn Môn | £111,249 |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot | £113,268 |
| Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro | £114,713 |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys | £192,934 |
| Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe | £163,023 |
| Cynghrair Gwirfoddol Torfaen | £113,402 |
| Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro | £113,658 |
| Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful | £110,297 |

| | |
|---|---|
| **Grantiau i Ganolfannau Gwirfoddol** | **£1,200,628** |

**Dyraniadau**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol yn Wrecsam | £50,790 |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr | £47,362 |
| Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin | £47,362 |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion | £50,245 |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy | £49,256 |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych | £49,813 |
| Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | £53,424 |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent | £170,503 |
| Interlink | £47,362 |
| Mantell Gwynedd | £71,042 |
| Medrwn Môn | £47,362 |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot | £48,967 |

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro | £47,362 |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys | £158,064 |
| Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe | £49,157 |
| Cynghrair Gwirfoddol Torfaen | £47,362 |
| Canolfan Gwirfoddoli'r Fro | £65,736 |
| Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tydfil | £47,362 |
| Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol (Cymru) Cyf (Caerdydd) | £52,097 |
| **<u>Cronfa Gallu Partneriaeth: gwariant cymwys</u>** | |
| Grantiau i aelodau'r Cyngor Partneriaeth i annog ymgysylltu | **£111,942** |

Dyfarnwyd arian grant hefyd i gyflenwi'r gweithgareddau canlynol gan WCVA:

**Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru** - **£891,765** i helpu mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd, yn enwedig o blith grwpiau lleiafrifoedd a grwpiau na cheir cynrychiolaeth deg ohonynt.

**GwirVol** - **£974,478** i gefnogi gwirfoddoli ymysg pobl ifanc yng Nghymru.

**Uned Cofnodion Troseddol** - **£407,077** i ddarparu cyngor ac arweiniad ynghyd â mynediad at wasanaethau datgelu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru.

**Dylunio Gwefan ar gyfer Seilwaith Trydydd Sector Cymru - £34,135** i gynllunio a chyflenwi gwefan un platfform ar gyfer Seilwaith y Trydydd Sector yng Nghymru.

**Ymchwil - £18.366** er mwyn gallu casglu data ar gyfer ymchwil i ariannu mudiadau'r Trydydd Sector ar lefel leol.

**Cyfanswm uchafswm y cyfraniad cyllid £7,324,722**

Nid dyma'r unig gyllid a ddarperir i fudiadau'r Trydydd Sector yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cefnogaeth, cyllid craidd a chyllid prosiect i lawer o fudiadau Trydydd Sector eraill y tu hwnt i gwmpas y Cytundeb Partneriaeth.

Mewn llawer o achosion mae'r cronfeydd hyn yn ymwneud â meysydd gwaith arbenigol a chytunir ar y cyllid gan y Gweinidog priodol yn Llywodraeth Cymru. Ceir ychydig bach mwy o wybodaeth am y cyllid ehangach hwn ym Mhennod 6.

**Astudiaeth Achos: Gwirfoddolwyr yn gwella lles cleifion mewn ysbytai**



Cynllun Cyfeillio yn Ysbyty Aneurin Bevan (YAB) yng Nglynebwy ac Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach yw'r Prosiect Sunflower. Mae'n cael ei redeg gan staff Canolfan Wirfoddol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO). GAVO yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer ardaloedd Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chasnewydd. Yn ystod dwy flynedd gyntaf y prosiect mae dros 300 o wirfoddolwyr wedi rhoi eu hamser er mwyn lleihau unigrwydd a phryder cleifion.

Trefnodd Amanda Newman a Sinead Evans, staff Gwirfoddoli yn GAVO Blaenau Gwent, gan weithio mewn partneriaeth agos ag Anita Davies, Rheolwr Nyrsys, ymgynghoriad â chleifion, eu teuluoedd a staff yn YAB er mwyn canfod ble fyddai'r lle gorau i leoli gwirfoddolwyr. Cychwynnwyd cynllun peilot cychwynnol 6 mis ym Mai 2012 i recriwtio a hyfforddi 10 o wirfoddolwyr. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr i gael gwaith yn y sector gofal neu i fynd ymlaen i gael hyfforddiant pellach.

Roedd yr effaith ar gleifion yn wych – yn enwedig o ran y cleifion hynny nad oeddent yn cael llawer o ymwelwyr, os o gwbl. Roedd y gwasanaeth yn rhoi cyfle i gleifion adael eu hystafelloedd a chymdeithasu, a hynny am y tro cyntaf ers misoedd efallai. Yn ychwanegol at hyn, cafodd y gwirfoddolwyr effaith fawr ar gleifion oedd â dementia, lle mae cwmni gwirfoddolwr, hyd yn oed os nad yw'n gwneud dim mwy na gafael yn llaw rhywun, wedi lleihau pryder a gofid cleifion sydd ar eu pen eu hunain mewn lle anghyfarwydd.

Mae’r prosiect yn Ysbyty Ystrad Fawr (YYF) yn debyg i’r un yn Ysbyty Aneurin Bevan er bod y cynllun peilot yno wedi cychwyn ychydig yn hwyrach. Mae YYF ddwywaith a hanner cymaint ag YAB ac yn cynnwys ystafelloedd cyffredin llawer llai, felly ar sawl ystyr mae datblygu’r cynllun wedi bod yn dipyn mwy o her.

Mae’r gwirfoddolwyr sy’n ymwneud â’r Prosiect Sunflower yn amrywio o ran oed o 16 i 80 ac yn dod o gefndiroedd amrywiol. Mae’r gwaith gwirfoddol yn dod â hwy at ei gilydd i wella bywydau cleifion sy’n aml yn mynd drwy adegau anodd iawn yn eu bywydau. Mae’r gwahaniaeth cyn ac ar ôl y sesiwn gwirfoddoli yn amlwg iawn – cleifion yn sgwrsio ac yn chwerthin gyda’i gilydd. Mae teuluoedd yn teimlo’n fwy bodlon bod eu hanwyliaid yn cael cwmni rheolaidd rhwng amseroedd ymweld.

Mae Cronfa’r Loteri Fawr wedi ymrwymo i ariannu’r prosiect hwn am y tair blynedd nesaf.

**Astudiaeth Achos: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd**

Cafodd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd grant o £9,999 drwy Raglen Gwirfoddoli Ieuenctid GwirVol, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac yn cael ei gweinyddu ar ran y Llywodraeth gan WCVA. Pwrpas y grant oedd cynnwys pobl ifanc mewn rolau gwirfoddoli amrywiol, gan gynnwys Arweinydd Teithiau Tywys Cynorthwyol, Cynorthwyydd Dehongli, Trefnydd Digwyddiadau Cynorthwyol, Cynorthwyydd Cofnodi Gwaith Maes Archaeolegol a Chynorthwyydd Cloddio.

Defnyddiwyd y cyllid i gynorthwyo un ar bymtheg o wirfoddolwyr ifanc i fynd ar gyrsiau hyfforddiant awyr agored i wirfoddolwyr. Roedd y cyrsiau'n cael eu darparu drwy brosiectau eraill neu'n cael eu hwyluso gan brosiectau eraill. Roeddent yn cynnwys penwythnos hyfforddiant cofnodi gwaith maes er mwyn cofnodi maes reifflau o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, cwrs hyfforddiant technegau Arolygon yr Ucheldir a chofnodi claddfeydd archaeolegol.

Bu'r trefnwyr digwyddiadau cynorthwyol yn helpu'r tîm gwaith maes i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys ysgolion a phobl ifanc eraill. Roedd y tasgau'n cynnwys gohebu, cyhoeddusrwydd, ffotograffiaeth, gosod stondin, paratoi adnoddau, rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a rhannu eu profiadau o ymwneud â gwaith yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r bobl ifanc wedi elwa o'r cyfle i ddatblygu sgiliau, profiad a hyder. Mae'r sgiliau'n amrywio o sgiliau y gellir eu trosglwyddo, e.e. sgiliau swyddfa, sgiliau TG a sgiliau ffotograffiaeth, i sgiliau mwy penodol ym maes archaeoleg.

Mae rhai o'r gwirfoddolwyr wedi mynd ymlaen i gael gwaith. Mae eraill wedi datblygu eu dealltwriaeth o archaeoleg a'r amgylchedd gwaith a bydd hynny'n ddefnyddiol pan fyddant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau gyrfaol. Mae llawer o'r gwirfoddolwyr wedi cael tystysgrifau Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Yn ôl Matthew Bamborough, 'Gwirfoddoli gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd wnaeth fy nghyflwyno i archaeoleg. Datblygodd fy niddordeb yn y pwnc ac ro'n i'n gwybod wedyn mod i eisiau gwneud gradd yn y pwnc. Fe wnes i fwynhau cofnodi'r maes reifflau o gyfnod y Rhyfel Mawr, cloddio a gweithio gyda phobl eraill frwdfrydig.'





## 5. CEFNOGI'R TRYDYDD SECTOR – RÔL SEFYDLIADAU SEILWAITH I ALLUOGI'R TRYDYDD SECTOR I FFYNNU A CHYFLAWNI

### Seilwaith y Trydydd Sector: grymuso sefydliadau i gael effaith gadarnhaol ym mhob cwr o Gymru



Mae'r Trydydd Sector yng Nghymru'n dibynnu ar ddinasyddion gweithgar sydd eisiau bod yn rhan o'u cymunedau ac sydd â diddordeb mewn materion amrywiol o'u cwmpas, fel trechu tlodi, newid hinsawdd, iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau cyhoeddus ac yn y blaen. Brwdfrydedd y dinasyddion hyn sy'n gyfrifol am ffyniant y sector.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun y Trydydd Sector a'r Cytundeb Partneriaeth Seilwaith, yn cefnogi seilwaith Trydydd Sector sy'n cynrychioli, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Trydydd Sector ar bob lefel, ac sy'n atebol iddo. Yn bennaf, mae'r seilwaith hwn yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol (gweler yr wybodaeth ychwanegol ar gyfer manylion cysylltu) sydd i gyd yn helpu i hybu a helpu gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gynorthwyo mudiadau yn y sector a gwirfoddolwyr i sicrhau newid cadarnhaol yn y cymunedau lle maent yn gweithio ac, os oes angen, helpu'r sefydliadau hyn i fonitro eu canlyniadau a'u heffaith yn effeithiol.

### Ystadegau allweddol

Yn ystod 2014/15:

- Cafodd dros 5,500 o gyfleoedd gwirfoddoli eu hysbysebu ar y wefan a ariennir gan Lywodraeth Cymru http://www.gwirfoddolicymru.net/, a chafwyd bron 170,000 o ymweliadau â hi;

- Cafodd dros 7,000 o bobl eu helpu i wneud eu rhan fel gwirfoddolwyr, gan gynnwys dros 2,000 o bobl ifanc;
- Cafodd bron 600,000 o daflenni gwybodaeth ar redeg a rheoli mudiadau eu lawrlwytho o wefannau seilwaith;
- Derbyniwyd ac ymatebwyd i dros 8,500 o ymholiadau gan ymddiriedolwyr;
- Derbyniwyd ac ymatebwyd i dros 11,800 o ymholiadau am gyngor ynglŷn ag ariannu;
- Sicrhawyd dros £35 miliwn i'r grwpiau a gynghorwyd;
- Cynhaliwyd dros 950 o gyrsiau hyfforddiant, gan ddenu dros 9,000 o gyfranogwyr;
- Darparwyd dros £7 miliwn i gynlluniau grantiau a benthyciadau'r sector;
- Cynrychiolwyd y sector mewn dros 1,000 o grwpiau cynllunio strategol/gweithgorau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;
- Cefnogwyd dros 250 o fforymau neu rwydweithiau Trydydd Sector lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Gwirfoddoli**

Mae WCVA yn rheoli gwefan Cyfleoedd Gwirfoddoli yng Nghymru, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, gan weithio mewn cysylltiad agos â Chanolfannau Gwirfoddol lleol a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr. Mae croeso i bawb ddefnyddio http://www.gwirfoddolicymru.net/ i ddod o hyd i gyfle addas i wirfoddoli yn lleol neu i roi gwybodaeth am gyfle i recriwtio gwirfoddolwyr.

Mae Canolfannau Gwirfoddol yn rhan hanfodol o seilwaith y Trydydd Sector yng Nghymru, ac yn darparu cyngor ac arweiniad i wirfoddolwyr a darpar wirfoddolwyr drwy gefnogaeth wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy ebost, ar y cyfryngau cymdeithasol a drwy http://www.gwirfoddolicymru.net/. Rheolir y wefan hon gan WCVA, sy'n gweithio mewn cysylltiad agos â Chanolfannau Gwirfoddol lleol. Mae'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn hysbysebu cyfleoedd i wirfoddoli mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae croeso i bawb ddefnyddio http://www.gwirfoddolicymru.net/ i ddod o hyd i gyfle addas i wirfoddoli yn lleol.

Mae hyfforddiant i wirfoddolwyr hefyd yn cael ei gynnig gan sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a Chanolfannau Gwirfoddol, ac mae gwirfoddolwyr yn derbyn tystysgrifau a chymwysterau ar ôl dilyn hyfforddiant mewn datblygiad personol a phroffesiynol – er enghraifft, mae gan Brosiect WISH Cymorth i Fenywod Llanelli nifer o gynlluniau, gan gynnwys gweithdy dan y teitl Cadw Tenantiaeth a Chyllidebu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru, ac yn 2014-15 cyfrannodd gwirfoddolwyr 467,151 o oriau. Mae hefyd yn cefnogi rhaglen gwirfoddoli ieuenctid GwirVol.

**Darparu gwybodaeth ac arwain y sector**

Mae seilwaith Trydydd Sector WCVA, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r Canolfannau Gwirfoddol yn gwneud llawer i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i wirfoddolwyr a mudiadau'r Trydydd Sector, boed eu cwestiynau'n ymwneud â chyllid, statws ymddiriedolaeth, rheoli gwirfoddolwyr, recriwtio neu rwymedigaethau cyfreithiol. Mae'r gefnogaeth hanfodol hon ar gael dros y ffôn, ar-lein neu ar bapur.

Mae WCVA hefyd yn darparu Desg Gymorth genedlaethol, canolfan gyswllt i bwy bynnag sydd angen cyngor. Mae'r Ddesg Gymorth yn darparu cymorth i'r ymholydd, neu'n ei gyfeirio at rywun arall all roi rhagor o gymorth iddo.

Mae WCVA, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r Canolfannau Gwirfoddol yn gwneud llawer i helpu unigolion a mudiadau i ddod o hyd i wybodaeth sy'n ddefnyddiol iddynt. Mae hyn yn berthnasol pa un a ydynt yn ystyried gwirfoddoli, yn darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr neu'n ystyried sefydlu corff i ddiwallu angen neu'n defnyddio gwirfoddolwyr i roi cymorth.

**Hyfforddiant a chyflogaeth**

Mae'r Trydydd Sector bob amser yn rhannu ei arbenigedd a'i sgiliau drwy ystod o raglenni hyfforddi a mentora. Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gweithio gyda mudiadau rhanbarthol a chenedlaethol eraill ar amrywiaeth o gyrsiau arbenigol, er enghraifft atal hunanladdiad, rheoli risg, cymorth cyntaf a chyllido torfol.

Maent hefyd yn cynnal sesiynau dysgu anffurfiol mewn canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd, er enghraifft, sesiynau ar sut i ddechrau mynd ar-lein neu ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a mynd i ddigwyddiadau cymunedol i rannu gwybodaeth am eu gwasanaethau.

Mae WCVA yn helpu'r rhai sy'n gweithio i fudiadau'r trydydd sector ac yn gwirfoddoli gyda hwy i ddatblygu sgiliau ymarferol ar gyfer y gweithle drwy gyrsiau hyfforddiant traddodiadol, seminarau, gweminarau a dysgu ar-lein, gan edrych ar amrywiaeth eang o bynciau yn amrywio o hwyluso cyfarfodydd i siarad cyhoeddus, gwerthuso effaith gwaith sefydliad a diogelu. Maent hefyd yn cynnal nifer o gynadleddau blynyddol, yn ogystal â Pharth Dysgu ar-lein poblogaidd.

Yn ychwanegol at hyn, cynorthwyodd WCVA 645 o bobl i gael gwaith drwy ei raglen Porth Ymgysylltu ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod maith.

**Ymddiriedolwyr effeithiol, llywodraethu da**

Mae trefniadau llywodraethu cryf a chlir yn hanfodol. Mae gwaith ymddiriedolwyr yn darparu arweiniad, eglurder ac atebolrwydd ar draws y Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru, a seilwaith y Trydydd Sector, wedi ymrwymo i sicrhau bod ymddiriedolwyr yn cael pob cefnogaeth i fod yn effeithiol yn eu rolau.

Mae'r gefnogaeth hon ar gael mewn nifer o wahanol ffyrdd, yn amrywio o hyfforddiant i seminarau a gweithdai, yn ogystal â diweddariadau drwy

wefannau, e-fwletinau, newyddlenni a’r cyfryngau cymdeithasol. Mae rhaglen digwyddiadau WCVA hefyd yn cynnwys y Gynhadledd flynyddol ar Gyfraith Elusennau, sy’n canolbwyntio ar ddatblygiadau cyfreithiol a rheoleiddiol, ynghyd â diweddariad ar Gyfraith Cyflogaeth.

**Cael arian a chyngor**

Un o swyddogaethau pwysicaf y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a WCVA yw helpu mudiadau yn y Sector i gael arian i’w galluogi i gyflawni eu hamcanion. Gellir cael cyllid drwy grantiau, drwy ennill contractau, neu drwy fenthyciadau, er enghraifft o Gronfa Buddsoddi Cymunedol WCVA.

Mae helpu sefydliadau’r Trydydd Sector i ganfod a sicrhau cyllid i’w galluogi i gyflawni eu hamcanion yn rôl allweddol i WCVA a’r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru.

Mae WCVA a’r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn darparu ystod o wasanaethau gyda’r bwriad o helpu sefydliadau i sicrhau a chynnal adnoddau cynaliadwy ac amrywiol. Mae’r gefnogaeth a’r arweiniad a roddir i ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) chwilio am gyllid; cymorth ymarferol â cheisiadau am gyllid; sut i arallgyfeirio eu hincwm; strategaethau codi arian; cynllunio busnes; rheolaeth ariannol; tendro; masnachu; a gweithio ar y cyd.

Mae gwasanaeth Cynigion Gwell WCVA yn cynnig cyngor i sefydliadau wrth iddynt ddatblygu eu ceisiadau am arian i raglen Pobl a Lleoedd y Gronfa Loteri Fawr a rhaglenni eraill.

Dyma rai enghreifftiau:

- Derbyniodd YMCA Caerdydd gyllid gan Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru WCVA i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ddigartref, a phobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod maith, yn eu Canolfan Ailgylchu PreFab a’u siop ddillad PreFab;
- Cafodd tafarn Iorwerth Arms ym Môn (gweler yr Astudiaeth Achos yn yr Adroddiad hwn) gyllid gan y Gronfa Fuddsoddi Cymunedol i ddod yn fusnes cymdeithasol. Erbyn hyn mae’n cael ei rhedeg gan y gymuned ac ar ran y gymuned fel menter ddielw;
- Mae grant gan Amgylchedd Cymru wedi helpu RAY Ceredigion (gweler yr Astudiaeth Achos yn yr Adroddiad hwn) i ddatblygu ei Stôr Sgrap a chynnal gweithgareddau crefft amrywiol am ddim i deuluoedd ac ysgolion.

**Helpu sefydliadau a gwasanaethau i ddiwallu anghenion cymunedau**

WCVA oedd yn rheoli’r prosiect Cymunedau Mentrus, a oedd yn cael ei weithredu tan fis Rhagfyr 2014. Roedd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ac yn cael ei weithredu gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol. Cefnogodd 1,692 o sefydliadau yn 2014-15.

Nod Cymunedau Mentrus oedd darparu cefnogaeth i’r sector i’w helpu i fod yn gynaliadwy, cynhyrchu incwm a gwneud ceisiadau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Darparodd swyddogion Cymunedau Mentrus a oedd wedi’u lleoli

yn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol wybodaeth a chyngor i sefydliadau am gyllid, rheolaeth sefydliadol, datblygu gwirfoddolwyr a chynaliadwyedd ariannol.

Cafodd mudiadau gwirfoddol yn y Gogledd gymorth gan Cymunedau Mentrus i osod stondinau am ddim ym Marchnad y Rhyl. Roedd hyn yn helpu'r mudiadau i godi arian, hyrwyddo eu gwasanaethau a recriwtio gwirfoddolwyr newydd. Mae'r mudiadau'n cynnwys Gofal Canser Marie Curie, Cymorth i Ddioddefwyr a Sefydliad y Galon Prydain. Helpodd i gynhyrchu dros £2,000 o refeniw ychwanegol.

**Polisi: rhoi llais i'r sector**

Mae WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol yn gweithio i sicrhau bod y Trydydd Sector yn gallu cyfrannu'n effeithiol at bolisi ar bob lefel.

Ar lefel genedlaethol, caiff llais a chynrychiolaeth gref o'r sector ei hwyluso drwy aelodaeth ar grwpiau cynllunio strategol a rhwydweithiau a fforymau cefnogi, ynghyd â system wybodaeth yn hysbysebu pob ymgynghoriad perthnasol.

Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cymryd rhan weithredol mewn partneriaethau allweddol gyda'r Sector Cyhoeddus yn eu hardaloedd, ac yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau mewnbwn y sector i bartneriaethau rhanbarthol sy'n cael eu sefydlu.

Mae angen llais cryf i'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyfrannu'n effeithiol at bolisi. Hwylusir llais a chynrychiolaeth drwy grwpiau cynllunio amrywiol, digwyddiadau polisi, rhwydweithiau a fforymau, yn enwedig Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

Rhwydwaith o gynrychiolwyr gwahanol fuddiannau yn y Trydydd Sector yw Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Maent yn dod at ei gilydd i gyfarfod Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed. Maent yn cyfarfod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ddwywaith y flwyddyn. Yn ychwanegol at hyn, mae rhwydweithiau penodol o fewn y sector yn cyfarfod Gweinidogion eraill ar draws y gwahanol bortffolios, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, ac adnoddau naturiol, i drafod materion sy'n effeithio ar eu meysydd gwaith penodol, tra mae eraill, sy'n edrych ar gyfiawnder cymunedol, camddefnyddio sylweddau a chydraddoldeb, yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac arferion da.

Mae WCVA hefyd yn hyrwyddo ac yn ymateb i ymgyngoriadau polisi ac adolygiadau drwy'r flwyddyn, gan roi adborth gan y sector. Roedd yr ymgyngoriadau yr ymatebwyd iddynt yn 2014/15 yn cynnwys y rhai a oedd yn ymwneud â chasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, Allbynnau Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy a buddsoddiad cymdeithasol gan elusennau.

Mae prosiect Cyfranogaeth Cymru gan WCVA hefyd yn annog y cyhoedd i ymwneud â'r broses ddemocrataidd, tra mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn dal i gynorthwyo fforymau a rhwydweithiau i gyfrannu gwybodaeth. Mae Grwpiau Ymgysylltu â Dinasyddion Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ffordd ddefnyddiol arall o ymgysylltu.

**Trechu tlodi**

Mae WCVA yn hwyluso Tasglu Rhaglenni Gwrth-dlodi'r Trydydd Sector, fforwm pwysig sy'n helpu sefydliadau i ddod at ei gilydd a rhannu gwybodaeth a syniadau ynglŷn â sut y gallant weithio gyda'i gilydd i drechu tlodi a dylanwadu ar Gynllun Gweithredu Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd y Tasglu dystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Dlodi yng Nghymru, ac ymwelodd Gaynor Richards, un o dri Llysgennad Cyllid Ewropeaidd yr UE â'r pwyllgor i drafod cyllid Ewropeaidd a gweithgaredd gwrth-dlodi y tu hwnt i Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Trefnodd WCVA hefyd weithdy yn nigwyddiad Uned Ddata Cymru, Trechu tlodi: o dystiolaeth i weithredu.

**Astudiaeth Achos: Gwirfoddolwyr y Mileniwm/GwirVol**




Ar ôl cael cydnabyddiaeth am yr holl oriau o waith gwirfoddol y mae wedi'u gwneud, mae Lisa Oliver wedi cael ei hysbrydoli i wneud yr un peth i'w gwirfoddolwyr ifanc ei hun drwy sefydlu rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Derbyniodd Lisa, Cydgysylltydd Rhwydwaith Gwirfoddolwyr GoIT yn Leonard Cheshire Disability, ei gwobr Gwirfoddolwyr y Mileniwm ar ôl 200 awr o wirfoddoli cyson gyda phrosiectau Gwaith Gwirfoddol Myfyrwyr Bangor.

Mae Lisa yn rheoli prosiect sy'n gweithredu drwy Gymru gyfan, ac sy'n cael ei ariannu gan GwirVol, gyda'r bwriad o gynyddu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol mewn gwasanaethau. Bydd rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn helpu i gydnabod yr oriau o waith gwirfoddol a gyflawnir gan y gwirfoddolwyr ifanc y mae Lisa'n eu cydgysylltu.

Yn ôl Lisa, 'Dw i'n meddwl bod Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn wych oherwydd mae'n rhoi cydnabyddiaeth am y gwaith dw i wedi'i wneud wrth wirfoddoli. Mae'r gydnabyddiaeth yma'n fy ngalluogi i ddangos i ddarpar gyflogwyr fy mod yn berson ymroddgar sy'n awyddus iawn i helpu pobl eraill, ac mae'r profiad yn caniatáu i mi ddatblygu rhagor ar fy sgiliau. Dw i'n teimlo ei bod hi'n fraint i mi rŵan gael helpu gwirfoddolwyr eraill i gwblhau eu dyfarniadau Gwirfoddolwyr y Mileniwm.'

**Astudiaeth Achos: Cyswllt Amgylchedd Cymru – Cronfa Natur**

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi chwarae rhan ragweithiol drwy gyfrannu a helpu i gefnogi prosiectau Cronfa Natur.

Mae prosiectau Cronfa Natur wedi dangos sut y gallwn reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy a chydgysylltiedig drwy ddull cydweithredol, mewn dalgylch, ar yr ucheldir neu ar ddarn o afon, sy'n dod â llawer o fanteision, gan gynnwys busnesau amaethyddol a chymunedau gwledig cryfach o ganlyniad i greu swyddi a mwy o gyfleoedd i ymwelwyr. Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau sydd wedi cael eu cefnogi.

- **Swyn Naturiol - £130,000** dan arweiniad **Cadwch Gymru'n Daclus** er mwyn cynyddu gwasanaethau ecosystemau niferus ardaloedd gwyrdd di-fudd nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd – glaswellt sy'n cael ei dorri ar stadau diwydiannol, tiroedd ysgolion ac ysbytai, parciau busnes ac ymylon ffyrdd - a'u troi'n garped o flodau gwyllt, gan greu mannau agored defnyddiol a gwerthfawr i'r gymuned. Llwyddodd y prosiect, a oedd yn cynnwys dros 37,000 o oriau gwirfoddolwyr, i ddarparu dros 170 o safleoedd unigol yn ogystal â 5 safle arddangos penodol ar gyfer y sector.

- **Rhaglen Tirwedd y Dyfodol Rhostir Gogledd Cymru - £230,097** dan arweiniad **RSPB Cymru**. Mae'n canolbwyntio ar gamau i wella bioamrywiaeth a rheoli tir yn gynaliadwy ar raddfa tirwedd ym Mharth Gweithredu'r Berwyn a'r Migneint. Roedd y rhaglen yn cael ei gweithredu drwy bartneriaeth eang a oedd yn barod i weithredu er mwyn sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy.

  Roedd y prosiect yn cynnwys gwaith rheoli i adfer dros 100 hectar o ucheldir gan gynnwys ailgyflwyno merlod i reoli'r dirwedd yn fwy effeithiol drwy bori. Yn ychwanegol at hyn, cyflwynwyd nifer o ymyriadau i gefnogi manteision yn ymwneud â thwristiaeth. Roedd agweddau arloesol y prosiect yn cynnwys strategaeth marchnata agored ar gyfer cig eidion a mêl yn yr ardal cadwraeth arbennig a defnyddio system lloeren i ymchwilio i strategaethau pori ar yr ucheldir.

- **Penrhyn Castell Martin - £113,985** ar gyfer prosiect partneriaeth yn cael ei arwain gan yr **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** ym Mharthau Natur Arfordir Penfro. Roedd y prosiect yn gyfuniad o fapiau gwe a oedd yn darparu tystiolaeth i ddatblygu pecyn cymorth y gallai sefydliadau a chymunedau ei ddefnyddio i roi sylw i golli cynefinoedd a bioamrywiaeth.

  Gwelodd y prosiect weithgaredd i wella cynefinoedd yn y dalgylch, a gwaith rheoli tir mewn llawer o wahanol gynefinoedd er mwyn gwella gwasanaethau ecosystem ansawdd dŵr. Roedd y gweithgareddau hefyd yn cynnwys cynnal a chadw Ardal Cadwraeth Arbennig, sy'n atyniad pwysig i ymwelwyr yn y gymuned leol. Yn ychwanegol at hyn, gwelwyd llawer iawn o ymgysylltu â'r gymuned leol hon a rhaglen wirfoddoli. Ymgysylltwyd yn fwyaf arbennig â phobl oedd wedi bod yn ddi-waith ers cyfnod maith, gan roi sgiliau newydd iddynt.

## 6. CYLLID A CHEFNOGAETH LLYWODRAETH CYMRU I FUDIADAU TRYDYDD SECTOR - 2014-15

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Trydydd Sector er mwyn adolygu a diwygio ei Chod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

Isod, ceir nodiadau esboniadol ar y mathau o gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i gefnogi mudiadau Trydydd Sector.

**Cymorth Grant neu "Grant"**

Mae gan Lywodraeth Cymru bedwar math o arian grant:

- Cyllid craidd strategol i sefydliadau cenedlaethol;
- Cyllid i brosiectau penodol ar lefel genedlaethol;
- Cefnogaeth i bartneriaethau neu gyrff cyfryngol cenedlaethol (Cymru gyfan) er mwyn iddynt hwy gefnogi prosiectau penodol ar lefel leol;
- Cyllid sefydlu i sefydliadau neu rwydweithiau cenedlaethol neu, drwy gyrff cyfryngol, i fudiadau lleol.

**Cyllid Craidd**

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn diffinio Cyllid Craidd fel a ganlyn:

"Mae cyllid craidd yn anodd iawn i'w ddiffinio gan fod llawer o amrywiadau o ran yr hyn sy'n cyfrif fel cyllid craidd gan ddibynnu ar y cyd-destun, fel maint neu natur mudiad. Fel arfer, bydd cyllid craidd yn cael ei roi i ariannu mudiad Trydydd Sector i ymgymryd â gweithgareddau y mae'r mudiad Trydydd Sector yn eu dewis o fewn paramedrau cyffredinol y cytunwyd arnynt â chorff cyhoeddus. Defnyddir cyllid craidd os yw lefel yr ymddiriedaeth rhwng y corff cyhoeddus a'r Mudiad Trydydd Sector yn uchel.

O dan gyllid craidd, bydd y berthynas rheoli rhwng y mudiadau Trydydd Sector a'r corff cyhoeddus yn un hyd braich yn fwriadol. Fel arfer, mae'r corff cyhoeddus yn rhoi cyngor ar ei flaenoriaethau unwaith y flwyddyn. Mewn perthynas sy'n seiliedig ar gyllid craidd, ni ddylai prosesau'r corff cyhoeddus i fonitro a gwerthuso'r mudiad Trydydd Sector fod yn un rhy lawdrwm a dylai trefniadau atebolrwydd bwysleisio atebolrwydd yr ymddiriedolwyr (neu unigolion cyfatebol).

Fel arfer, bydd cyllid craidd yn caniatáu i'r corff a ariennir gyflawni ei weithgareddau allweddol fel y'u diffiniwyd yn ei ddogfen lywodraethu. Bydd cyllid craidd gan amlaf yn cael ei roi am gyfnod penodol (hyd at 3 blynedd) ond gellir ei ddyfarnu am gyfnod parhaus.

Er nad yw trefniadau cyllido'n debygol o fod yn hwy na thair blynedd, gwneir ymrwymiad i gynyddu'r cyfnod pan fydd hynny'n bosibl, er mwyn lleihau unrhyw gostau gweinyddol a gwella effeithlonrwydd y trefniadau cyllido."

**Caffael**

Caffael yw cael nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr trydydd parti, fel arfer drwy drefniadau tendro, o dan delerau contract sy'n rhwym mewn cyfraith. Mae contractau o'r fath o fudd i'r awdurdod contractio ac maent yn angenrheidiol er mwyn iddo allu cyflawni ei fusnes neu ei ddyletswydd statudol.

Mae gwybodaeth ynglŷn â'r contractau sydd ar gael i'w gweld ar wefan GwerthwchiGymru Llywodraeth Cymru:
https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/

**Beth sydd yn y Cod?**

Mae'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector** (y Cod) yn nodi sut y dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantau ariannu'r Sector.

Mae'r Cod yn nodi'r mathau o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, yr egwyddorion y dylid seilio penderfyniadau ariannu arnynt, a'r telerau a'r trefniadau ar gyfer cynnig cyllid.

Anogir Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu eu codau ymarfer eu hunain ar ariannu'r Sector.

**SYLWER: Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cod diwygiedig a gyhoeddwyd yn Ionawr 2014.**

http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/publications/third-sector-scheme/?lang=en

**SUT MAE LLYWODRAETH CYMRU YN MONITRO PWY SY'N GLYNU WRTH EI CHOD?**

Er 2011, mae prosiect rheoli grantiau Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r modd y rheolir cyllid ar draws pob adran ac wedi helpu i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- Mae rhanddeiliaid allweddol wedi cytuno ar brosesau rheoli grantiau symlach wedi'u hategu gan safonau gofynnol, arweiniad, hyfforddiant a'r Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Grantiau:
- Porth arweiniad i grantiau a chyllid i roi arweiniad parhaus;

- Llythyr dyfarnu grant safonol sy'n mynnu bod y grantiau'n canolbwyntio ar ddeilliannau ynghyd â thempled 'taliadau ymlaen llaw';
- Proses archwilio ar hap i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal;
- Gwell prosesau diwydrwydd dyladwy er mwyn gallu monitro trefn lywodraethu, rheolaeth ariannol a pholisïau yn y mudiadau sy'n derbyn cyllid;
- Mwy o brosesau diwydrwydd dyladwy er mwyn gallu monitro cyrff allanol a'u perfformiad;
- Gweithio ar draws pob adran er mwyn canfod arferion da a'u rhannu.

### Adroddiadau Blynyddol

Mae Adroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau bellach yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Yn ogystal, mae adroddiad pellach ar gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn cael ei baratoi i Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ei ystyried. Mae'r adroddiad yn crynhoi unrhyw faterion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ac, yn benodol, yn nodi unrhyw faterion systemig sy'n ymwneud â'r Cod. Mae'r Is-bwyllgor yn adrodd i Gyngor llawn Partneriaeth y Trydydd Sector, a gall y Cyngor hwn yn ei dro godi unrhyw faterion perthnasol gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, sy'n cadeirio'r Cyngor.

### FAINT WNAETH LLYWODRAETH CYMRU EI WARIO AR Y TRYDYDD SECTOR YN 2014-15?

Rydym wedi parhau i ddatblygu a gwella'r broses a'r systemau casglu data sy'n cefnogi ac yn darparu'r data a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant a ddangosir isod.

Yn 2014-15 gwariodd Llywodraeth Cymru £290.45 miliwn ar ariannu'r Trydydd Sector yn uniongyrchol.

Nid yw hyn yn cynnwys taliadau anuniongyrchol a wnaed i fudiadau Trydydd Sector os yw Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i sefydliad arall, er enghraifft, Awdurdod Lleol, a allai fod wedi ariannu mudiadau Trydydd Sector yn ddiweddarach.

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân ar Reoli Grantiau. Rhan o'r rheswm am y gwahaniaethau yn y ffigurau cyffredinol a ddyfynnir yn yr adroddiad hwnnw a'r adroddiad rydych yn ei ddarllen yw bod yr adroddiad hwn yn ymdrin â gwariant grant a chaffael.

Mae'r cyllid grant i'r Trydydd Sector yr adroddwyd arno yn Adroddiad 2015 Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau yn adlewyrchu amgylchiadau amrywiol ar draws llawer o adrannau Llywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa economaidd

gyffredinol a'r gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth y DU ar gyfer Cymru yn anorfod wedi cael effaith ar gyllid ar draws pob sector.

Mae ffigurau cyllid cyffredinol ar gyfer y Trydydd Sector, gan gynnwys caffael, wedi dangos bod y gostyngiad mewn arian grant yr adroddwyd arno wedi cael ei leddfu os cafodd y cyllid ei ddarparu drwy gontractau caffael. Yn 2012-13, llwyddodd y Trydydd Sector i ddenu £43.7 miliwn mewn gwariant caffael, tra bod y Trydydd Sector, yn 2013-14, wedi sicrhau £66.5 miliwn mewn gwariant newydd. Yn 2014-15, llwyddodd y Trydydd Sector i ddenu £71.45 miliwn mewn gwariant caffael.

Mae hyn yn dystiolaeth o ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Trydydd Sector yng Nghymru, hyd yn oed mewn cyfnod sydd wedi bod yn un anodd iawn i bob un ohonom.

**RHAGOR O WYBODAETH**

I gael rhagor o wybodaeth am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector, ewch i:

http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/voluntarysector/?lang=en

Gallwch gael copïau o bapurau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, Adroddiadau Blynyddol blaenorol, y Trydydd Dimensiwn – Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector ac ati yno.

Fel arall, cysylltwch ag Uned y Trydydd Sector yn thirdsectorqueries@wales.gsi.gov.uk, neu ar y rhif ffôn (0300) 062 8274.

I gael rhagor o wybodaeth am wirfoddoli, ewch i http://www.gwirfoddolicymru.net/ neu ewch i'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol neu'ch Canolfan Wirfoddol leol. http://www.wcva-ids.org.uk/

I gael rhagor o wybodaeth am raglenni grant eraill, cysylltwch â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar (0800) 2888329 drwy fynd i'w gwefan http://www.wcva.org.uk neu ewch i www.sustainablefundingcymru.org.uk/.